Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Llanfawr

Caergybi
Ynys Môn
LL65 2DS

Dyddiad yr arolygiad:  Mehefin 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Llanfawr

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Llanfawr |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | Categori 3 |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 261 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 211 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 28 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%) | 39.9% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%) | 15.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 11.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 05/01/2009 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 16/11/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 17/06/2025 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Llanfawr yn gymuned ddysgu ofalgar, hapus a chroesawgar sy'n cefnogi anghenion emosiynol a chymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn ymddwyn yn garedig ac yn aeddfed, gan ddangos parch tuag at staff ac ymwelwyr. Mae'r ddarpariaeth i gefnogi lles disgyblion a staff yn nodwedd effeithiol o'r ysgol.

Mae gweledigaeth gadarn yr arweinwyr a'r staff i 'Lwyddo'n Ddiogel, Gyda'n Gilydd', yn cael ei rhannu'n effeithiol gyda'r disgyblion a chymuned ehangach yr ysgol. Mae arweinwyr yn arddel prosesau hunanwerthuso yn gadarn, sy'n galluogi gwelliannau yn y ddarpariaeth er lles a chynnydd disgyblion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau dros amser. Drwy ddatblygu'r Gymraeg gan ddefnyddio iaith arwyddo, mae cymhelliant ac ymdrech mwyafrif y disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg ar lafar mewn gwersi yn datblygu'n briodol. Er hyn, nid yw'r ddarpariaeth bob tro'n rhoi cyfleoedd cyson a chydlynus i'r disgyblion ddefnyddio a datblygu'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd amrywiol yn ddigon effeithiol.

Mae staff yn darparu amgylchedd dysgu yn bwrpasol i ysgogi disgyblion, gan gynnig cymorth a chefnogaeth gwerthfawr iddynt. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu ac yn dangos balchder yn eu gwaith. Drwy ganolbwyntio ar yr ardal leol, mae athrawon yn sicrhau bod y profiadau dysgu'n ennyn a chynnal diddordeb y disgyblion yn dda. Mae'r profiadau hyn yn galluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddatblygu medrau amrywiol yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob tro'n darparu cyfleoedd digon bwriadus i ddisgyblion gymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd yn adeiladol ar draws y meysydd dysgu.

Mae gan arweinwyr a staff berthynas hynod gynhyrchiol â rhieni a'r gymuned ehangach. Maent yn cefnogi'r rhieni mewn modd sensitif ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr iddynt ymweld â'r ysgol ac ymgysylltu â dysgu'r disgyblion yn effeithiol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1. Gwella'r cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio a datblygu eu medrau Cymraeg yn gyson a chydlynus mewn sefyllfaoedd amrywiol

A2. Darparu cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion gymhwyso a datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn adeiladol ar draws y meysydd dysgu

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif arfarniad

Mae’r ysgol yn gymuned ddysgu hapus a chynhwysol lle mae disgyblion a staff yn trin ei gilydd â gofal a charedigrwydd. Mae’r arweinwyr angerddol yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol. Mae ganddynt weledigaeth gadarn fod pob disgybl yn cael addysg mewn amgylchedd cartrefol a diogel er mwyn ‘Llwyddo’n Ddiogel, Gyda’n Gilydd.’ Cânt eu cefnogi’n frwd gan staff ymroddgar sy’n rhannu’r weledigaeth hon yn effeithiol gyda’r disgyblion a chymuned ehangach yr ysgol.

Un o gryfderau’r ysgol yw adnabyddiaeth gadarn arweinwyr a staff o anghenion disgyblion a’r prosesau effeithiol sy’n cael eu gweithredu i ddiwallu eu hanghenion emosiynol a chymdeithasol yn llwyddiannus. Mae staff yn defnyddio ystod eang o ddulliau gwerthfawr i sicrhau bod lles disgyblion yn gadarn er mwyn eu cefnogi i fod yn barod i ymgolli a mwynhau eu dysgu.

Mae ymddygiad bron bob disgybl ar draws yr ysgol yn gyson dda. Maent yn gwrtais, yn groesawgar ac yn mwynhau rhannu eu profiadau â staff ac ymwelwyr. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu, yn ymgyfarwyddo’n dda â thasgau ac yn canolbwyntio’n effeithiol am gyfnodau estynedig mewn gweithgareddau dysgu.

Nodwedd effeithiol o’r ddarpariaeth yw’r modd y mae arweinwyr a staff yn ymgysylltu’n fwriadus â rhieni. Maent yn darparu ystod gyfoethog o raglenni cefnogi a hyfforddiant i gryfhau’r berthynas rhwng y teuluoedd a’r ysgol, er enghraifft drwy wahodd rhieni i’r ysgol i ddysgu Cymraeg gan ddefnyddio iaith arwyddo.

### Ciplun: Cydweithio effeithiol rhwng yr ysgol a’r cartref

Mae arweinwyr a staff yn cydweithio’n hynod effeithiol er mwyn cynnal lles disgyblion. Maent yn canolbwyntio’n barhaus ar sicrhau bod disgyblion yn mynychu’r ysgol yn ddyddiol. Mae rôl y swyddog lles, y disgyblion a’r teuluoedd yn allweddol wrth sicrhau bod yr amrediad o ymyraethau yn cael y dylanwad gorau posibl ar gynnal lles, ac adeiladu hyder disgyblion fel eu bod yn teimlo’n barod i ddysgu.

Gyda chefnogaeth y pennaeth a’r staff, mae’r swyddog lles yn ymgysylltu’n rheolaidd â theuluoedd gan gydlynu’r gefnogaeth amrywiol sydd ar gael iddynt. Yn ogystal, mae’n cyfeirio rhieni at amrediad o wasanaethau, yn ôl yr angen, er mwyn ymateb i unrhyw fater sy’n dylanwadu ar bresenoldeb, hyder, a hapusrwydd disgyblion yn yr ysgol. Mae hyn yn hynod effeithiol wrth gefnogi disgyblion sy’n cael eu heffeithio gan dlodi, neu rai sy’n wynebu heriau cymdeithasol, i ymgysylltu’n llawn â’u dysgu.

Mae athrawon yn darparu cwricwlwm diddorol ac eang sy’n datblygu dealltwriaeth disgyblion o’r byd a’u hardal leol yn effeithiol. Maent yn gwneud defnydd pwrpasol o'r traeth lleol fel rhan o thema y ‘Môr’, ac yn cydweithio’n frwd â chwmnïau lleol er mwyn cefnogi’r disgyblion i ddysgu am fyd gwaith yn llwyddiannus. Yn ogystal, mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddwysáu eu gwybodaeth a dealltwriaeth am grefyddau, moesau ac arferion mewn diwylliannau gwahanol mewn sesiynau cyd-addoli, gweithgareddau dosbarth a thrwy wahodd ymwelwyr i’r ysgol.

Mae arweinwyr yn arddel gwaith tîm ymysg staff ar draws yr ysgol yn llwyddiannus sy’n cyfrannu at eu dealltwriaeth o’u rolau a’u cyfrifoldebau yn werthfawr. Maent yn gyfrifol am agweddau penodol o waith yr ysgol ac yn cyfrannu’n bwrpasol at sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd cyson yn eu medrau dros amser.

Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn i gefnogi disgyblion ag ADY. Mae staff yn monitro ac olrhain cynnydd disgyblion o’u mannau cychwyn yn drylwyr ac yn cynllunio amserlen gynhwysfawr o raglenni cefnogi pwrpasol sy’n ymateb i ofynion disgyblion yn effeithiol. Mae cynorthwywyr yn gweithio’n wybodus a medrus wrth gefnogi lles a dysgu’r disgyblion mewn gweithgareddau yn y dosbarth, a thrwy ddarparu rhaglenni cefnogi bwriadus yn nosbarth y ‘Bad Achub’.

Mae athrawon a chynorthwywyr ar draws yr ysgol yn sicrhau bod eu haddysgu yn symud y dysgu yn ei flaen ar gyflymder addas mewn sesiynau. Maent yn cwestiynu a darparu adborth amserol sy’n cefnogi cynnydd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn eu medrau yn fuddiol. Mae’r berthynas waith agos sy’n bodoli rhwng yr holl staff a’r disgyblion yn nodwedd gref o’r ddarpariaeth. Yn gyffredinol, mae gan staff adnabyddiaeth dda o gryfderau dysgu’r disgyblion a’r camau sydd angen iddynt eu cymryd er mwyn gwella eu medrau a gwneud cynnydd dros amser.

Mae dealltwriaeth a balchder y disgyblion at y Gymraeg a’u Cymreictod yn datblygu’n briodol dros amser. Mae’r ddarpariaeth i ddefnyddio iaith arwyddo i hyrwyddo medrau llafar disgyblion yn effeithiol. Mae mwyafrif y disgyblion yn sgwrsio’n briodol am eu dysgu ac yn egluro cysyniadau sy’n newydd iddynt yn addas. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn darparu cyfleoedd digon cyson a chydlynus i gefnogi disgyblion i ddefnyddio a datblygu eu medrau Cymraeg mewn sefyllfaoedd amrywiol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen cadarn, ac at ei gilydd, maent yn trafod cynnwys eu llyfrau’n gynyddol hyderus. Mae athrawon yn darparu dilyniant cyson mewn tasgau iaith sy’n adeiladu’n llwyddiannus o’r naill weithgaredd i’r llall. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd buddiol i ddatblygu eu medrau ysgrifennu Saesneg mewn ffurfiau amrywiol. Yn gyffredinol, nid oes digon o gyfleoedd cyson i’r disgyblion hynaf ddatblygu eu medrau ysgrifennu Cymraeg yn adeiladol dros amser.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau digidol. Mewn gweithgareddau mathemateg, mae athrawon yn cynllunio ystod gyfoethog o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau cyfrifo yn llwyddiannus. Mae ychydig o athrawon yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd yn fedrus mewn gweithgareddau buddiol. Er hyn, nid yw athrawon yn darparu cyfleoedd digon bwriadus i gefnogi disgyblion i gymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd yn adeiladol ar draws y meysydd dysgu.

Fel rhan o weithdrefnau hunanwerthuso cadarn, mae arweinwyr yn defnyddio nifer o ffynonellau tystiolaeth yn effeithiol i ddarparu darlun clir o berfformiad yr ysgol. Maent yn adnabod cryfderau’r ysgol ac agweddau sydd angen eu datblygu ymhellach yn gadarn. Maent yn defnyddio’r wybodaeth yn llwyddiannus i osod blaenoriaethau clir ar gyfer gwelliant ac yn cydweithio’n bwrpasol i fynd i’r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae llywodraethwyr yn wybodus ac yn dwyn y pennaeth a’r staff i gyfrif, fel y bo’n briodol, yn effeithiol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o flaenoriaethau gwella’r ysgol ac maent yn cyfrannu’n werthfawr at werthuso gwaith yr ysgol trwy ystod o weithgareddau monitro. Mae’r llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol a’i chymuned yn dda ac yn cefnogi’r ysgol yn angerddol.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod lles staff yn ganolog i’w gwaith dyddiol. O ganlyniad, mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a’u cefnogi’n fedrus. Caiff staff eu hannog i ddatblygu’n broffesiynol yn barhaus er mwyn gwella ansawdd yr addysgu a’u harfogi i gyflawni eu rolau a’u cyfrifoldebau yn llawn. Gall bob aelod staff fanteisio ar gyfleoedd dysgu perthnasol, sy’n cysylltu’n agos â blaenoriaethau gwella’r ysgol a’u hanghenion unigol.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Er bod gan yr ysgol gynllun gweithredu, sydd wedi ei gytuno arno, i adfer y diffyg, mae gan yr ysgol ddiffyg cyllideb sylweddol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y **caiff** ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 19/08/2025